Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llyfryn Gwybodaeth

# Helo!

Mae'n debyg nad ydych erioed wedi clywed am Cafcass Cymru a'r yr hyn rydym yn ei wneud a meddwl pam rhoddwyd y llyfryn hwn i chi. Ond rydym yma i helpu!

Weithiau gall fod yn anodd i deuluoedd gytuno ar yr hyn sydd orau i'w plant. Er mwyn helpu i wneud pethau'n well, efallai y byddant yn gofyn i'r llys teulu geisio helpu i ddatrys eu hanghytundeb.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth yr ydym yn gobeithio y bydd yn eich helpu i ddeall pwy yw pwy a beth sy'n digwydd!

**Os gwelwch air nad ydych yn ei ddeall, gallwch edrych ar Deall y Jargon yng nghefn y llyfryn i gael gwybod beth mae'n ei olygu.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41097
ISBN digidol 978-1-80082-058-6
ISBN argraffau 978-1-80082-056-2
Cyfraith Breifat Dros 11 oed.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. / This document is also available in English

# Beth yw Cafcass Cymru?

**Mae Cafcass Cymru yn helpu ac yn cynorthwyo plant a'u teuluoedd pan fyddant yn y llys teulu.**

**Ein prif waith yw rhoi cyngor am blant a phobl ifanc i'r llys teulu pan fydd yn gofyn i ni wneud hynny.**

Weithiau gall fod yn anodd i deuluoedd gytuno ar yr hyn sydd orau i'w plant. Os na allant ddatrys y problemau hyn, dyma pryd y byddant efallai'n gofyn i'r llys teulu helpu.

Bydd y llys teulu yn gofyn i ni wrando arnoch chi a sicrhau bod y barnwr neu'r ynad yn clywed sut rydych yn teimlo a'r hyn yr hoffech iddo ddigwydd. Fe wnawn ni siarad a'r pobl sydd o bwys i chi, er mwyn canfod mwy am eich sefyllfa unigol. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r barnwr yr hyn rydym meddwl sydd orau i chi.

# CCUHP a hawliau plant

**Mae hawliau gan bob plentyn, ni waeth pwy ydyw, o ble mae'n dod, yr hyn mae'n credu ynddo na lle mae'n byw.**

Yr hawliau hyn yw'r pethau y mae eu hangen ar blant i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.

Mae gan y Cenhedloedd Unedig restr o'r holl hawliau sydd gan blant. Enw'r rhestr hon yw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, neu CCUHP yn fyr.

***Mae hawliau'n bethau a roddir i chi gan y gyfraith cyn gynted ag y cawsoch eich geni – er enghraifft, yr hawl i addysg neu'r hawl i fywyd***

- Mae CCUHP yn rhestr o 54 o hawliau sydd gan bob plentyn neu berson ifanc dan 18 oed.
- Disgrifir pob hawl yn y rhestr hon fel erthygl.
- Mae erthyglau 1-42 yn pennu sut y dylid trin plant.
- Mae erthyglau 43-54 ynghylch sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau y gall pob plentyn arfer ei hawliau.

Swydd Comisiynydd Plant Cymru yw dweud wrth bobl pam fod hawliau plant mor bwysig. Os ydych yn credu nad ydych yn cael mynediad i'ch holl hawliau, gallwch gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru **www.childcomwales.org.uk** drwy **ffonio 0808 801 1000** am ddim neu **decstio 80800** a dechrau eich neges â **COM**.

Ceir yr holl hawliau hyn a llawer mwy yn **www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/**

# A allwch chi ddod o hyd i'r geiriau hyn?

**ERTHYGLAU**
**PLANT**
**LLYWODRAETH**
**HAPUS**
**IACH**
**HAWLIAU**
**AMDDIFFYNNIR**
**DIOGEL**
**CCUHP**

A
F O T B K O S
T B E G H U I P L M B
Z W S G D N K W S S D T I
U X D J O W F N O A R Y Y P O
N P Y L V Y E O F Q K B R L W
C S F W E R G E E J D O L K T
R S H N R S E L C I T R A N Y
E C J T P N C Q E W E V Y Y B T U
D E I O I M E G Q C H H K M X R I
F H U C W E M R T E T B F G S O K
G B A O J N C E D L Z Y C P R F O
N P E P O T D F A L R I G H T S L
T Y U P V M E N O I S T I M P
C R I P Y H O P I G H Y N O P
R T U S S L E G Y X C U G
F R U K L O P B V
F E V

# Llys teulu


**Llys Teulu yw lle gwneir penderfyniadau pwysig am blant a'u teuluoedd. Mae'n wahanol iawn i lysoedd troseddol lle mae pobl yn mynd iddynt pan maent wedi gwneud rhywbeth o'i le.**

Er ei fod yn edrych fel unrhyw lys arall, mae'n llai ffurfiol ac nid yw bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn gwisgo perwigiau a gynau fel rydych yn gweld ar y teledu.

Os oes anghytundeb rhwng eich rhieni neu eich gofalwyr, bydd y llys fel arfer yn galw hyn yn 'achos cyfraith breifat'. Y nod yw i bawb gytuno ond, os nad yw hynny'n bosibl, bydd barnwr neu ynad yn edrych ar yr holl wybodaeth ac yn helpu i wneud y penderfyniad gorau posibl i chi.

Weithiau bydd y 'partïon' (y bobl sy'n ymwneud â'r achos, fel eich rhieni) yn cael help cyfreithiol arbennig; gall hyn fod yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr. Mae'r bobl hyn yn gwybod am gyfraith plant a theulu a byddant yn siarad â'r barnwr neu'r ynad i esbonio dymuniadau a theimladau'r bobl maent yn eu cynrychioli.

**Bydd y barnwr neu'r ynad yn gofyn cwestiynau ac yn gwrando ar farn pawb cyn penderfynu. Efallai y bydd yn gofyn i arbenigwyr arall, fel gweithwyr cymdeithasol, i'w helpu wrth benderfynu. Bydd eich dymuniadau a'ch teimladau yn cael eu cynrychioli gan eich Cynghorwr Llys Teulu.**



# Ein staff

**Mae eich Cynghorydd Llys Teulu, neu CLLT yn fyr, yn rhywun sydd wedi'i hyfforddi'n broffesiynol ac yn gweithio i Cafcass Cymru.**

Efallai y byddwch hefyd yn eu clywed yn cael eu galw'n Weithiwr Cymdeithasol Llys Teulu. Mae CLLT yn rhoi gwybodaeth a chyngor i'r llys teulu er mwyn helpu barnwyr ac ynadon i wneud y penderfyniad gorau amdanoch chi a'ch teulu.

Rhan o waith y CLLT yw cwrdd â chi a gwrando'n astud ar eich barn a sut rydych yn teimlo a'ch helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd.

Bydd yn cynghori'r barnwr neu'r ynad ar beth yw eich anghenion, eich dymuniadau a'ch teimladau ac yn rhannu ei farn am yr hyn mae'n meddwl sydd orau i chi.

**NI** fydd yn gofyn i chi benderfynu ar yr hyn sy'n digwydd nesaf nac yn gofyn i chi wneud penderfyniad am eich teulu.

# Beth sy'n Digwydd?

**Byddwn yn dweud wrth y llysoedd am yr hyn rydym yn meddwl sydd orau i chi, fel arfer drwy lunio adroddiad i esbonio'r hyn rydych wedi'i ddweud a sut rydych yn teimlo.**

Fel bod ein cyngor i'r llys yn gywir, byddwn fel arfer yn siarad â'ch rhieni a phobl eraill yn eich bywyd, fel athrawon. Hefyd, gellir cynnwys y trafodaethau hyn yn yr adroddiad.

Gall unrhyw beth rydych yn siarad amdano a ni gael ei gynnwys yn yr adroddiad a bydd eich teulu'n gweld yr adroddiad. Os ydych yn poeni am hyn, cofiwch ddweud wrthym fel y gallwn helpu.

Bydd y barnwr neu'r ynad yn darllen yr adroddiad ac yn meddwl am ein cyngor. Bydd yn gwrando ar yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud cyn penderfynu ar yr hyn mae'n meddwl sydd orau i chi.

Weithiau, nid yw hyn yr un peth â'r hyn roeddech eisiau, ond bydd y llys bob amser yn gwneud yr hyn mae'n meddwl sydd orau i chi.

# Beth nesaf?

**Pan fydd y llys wedi gwneud ei benderfyniad, bydd yn dweud wrth bawb sy'n gysylltiedig â'r achos am yr hyn i'w wneud nesaf.**


Mae pawb yn wahanol, felly gall canlyniad eich achos fod yn wahanol i rywun arall. Bydd pob penderfyniad gan farnwr/ynad yn unigryw i'r hyn maent yn credu sydd orau i chi.

Yn aml, gofynnir i'r barnwr/ynad benderfynu gyda phwy y byddwch yn byw neu pwy y cewch weld. Os yw'r Barnwr/Ynad yn penderfynu lle y dylech fyw, caiff ddweud hefyd pa mor aml y dylech weld y rhiant arall (yr un nad ydych yn byw gydag ef) ac, o bosibl, lle a phryd y dylech gwrdd ag ef.

Fel arfer, eich teulu fydd yn dweud wrthych am benderfyniad y barnwr/ynad.

Gan ein bod ond yn gysylltiedig pan fydd y llys yn gofyn i ni ei gynorthwyo, bydd ein cysylltiad fel arfer yn dod i ben ar yr adeg hon.

**Beth bynnag yw'r canlyniad, bydd help a chefnogaeth i chi. Mae'r adran nesaf yn esbonio rhywfaint o'r help hwn a lle i ddod o hyd iddo.**



# Cysylltiadau

**Os ydych yn chwilio am fwy o help neu wybodaeth, dyma rai pobl a all eich helpu.**

Cafcass Cymru

llyw.cymru/cafcasscymru

---

Yn cefnogi plant a phobl ifanc ac yn ceisio sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

www.complantcymru.org.uk

---

childline

Cewch wybodaeth a chyngor ar amrywiaeth o faterion, siarad â chwnselydd ar-lein, anfon e-bost at Childline neu bostio ar y byrddau negeseuon. www.childline.org.uk

---

Tros Gynnal Plant

Prif ddarparwr eiriolaeth Cymru, yn cefnogi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

www.tgpcymru.org.uk

---

meic

Llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc. 080880 23456

www.meiccymru.org

---

nyas

Mae Nyas Cymru'n cynnig cynrychiolaeth eiriolaeth gyfrinachol i blant a phobl ifanc agored i niwed ar draws Cymru ar ran awdurdodau lleol.

www.nyas.net/nyas-cymru

---

Action for Children

O'r adeg cyn iddynt gael eu geni nes eu bod yn eu hugeiniau, rydym yn helpu plant difreintiedig ar draws y DU.

www.actionforchildren.org.uk

# Sut rydw i'n rhoi adborth neu'n cwyno?

**Os ydych am ddweud wrthym am rywbeth a wnaethom yn dda neu rywbeth y gallem fod wedi ei wneud yn well gallwch wneud hyn mewn nifer o ffyrdd:**

Gallwch ddefnyddio'r ffurflenni adborth yn rhan adborth ein gwefan:

llyw.cymru/cafcasscymru neu;

@MyVoiceCafcassCymru@Gov.Wales neu;

Gallwch ein ffonio rhwng 9:00yb – 4:30yp o ddydd Llun i ddydd Gwener ar 0800 49 60 650

Neu gallwch gysylltu â ni drwy'r post, y cyfeiriad yw:

Tîm Sicrhau Ansawdd Cafcass Cymru
Adeiladau Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ


# Beth sy'n digwydd nesaf?

**Byddwn yn cysylltu â chi i siarad am y pryder a ddywedoch wrthym amdano.**

Byddwn yn ymchwilio i'ch pryderon ac yn rhoi gwybod i chi o fewn 3 wythnos beth rydym wedi'i ganfod a'r hyn y gellir ei wneud am eich cwyn.

Os ydych yn dymuno, gallwn gyfarfod eto i siarad am unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Eich hawl yw cael rhywun i'ch helpu i wneud eich cwyn. Eiriolwr yw'r enw ar y person hwn a gall siarad ar eich rhan a'ch helpu i ddweud beth rydych am ei ddweud. Gallwn drefnu i chi gael Eiriolwr sy'n gweithio i chi ac nid Cafcass Cymru.



# Deall y jargon

Mae **adroddiad** yn wybodaeth ysgrifenedig sy'n cynnwys eich dymuniadau a'ch teimladau a'r hyn mae'r Cynghorydd Llys Teulu (CLLT) yn credu sydd orau i chi. Bydd yn cael ei roi i'r llys i'w helpu i wneud penderfyniad am yr hyn sydd orau i chi.

---

**Bargyfreithiwr** yw rhywun sydd wedi'i hyfforddi mewn cyfraith teulu. Mae'n gallu rhoi cyngor a siarad yn y llys ar ran pobl sy'n mynd drwy'r llysoedd teulu.

---

**Barnwr** yw person sydd wedi'i hyfforddi'n gyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau mewn llys teulu. Mae'r barnwr yn gwrando ar yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud, yn darllen adroddiadau, yn cymhwyso'r gyfraith ac yn penderfynu beth sydd orau i'r plentyn.

---

Mae **Cafcass Cymru** yn sefydliad sy'n helpu ac yn cynorthwyo plant a'u teuluoedd pan fyddant yn y llys teulu.

---

Mae **CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)** yn rhestr o hawliau sydd gan yr holl blant a phobl ifanc, ym mhobman yn y byd, waeth pwy ydyn nhw, ble maent yn byw neu'r hyn maent yn credu ynddo.

---

Mae **Cyfraith Breifat** yn achosion sydd fel arfer yn cael eu dwyn i'r llys teulu gan rieni (weithiau aelodau eraill o'r teulu) mewn cysylltiad â materion sy'n cynnwys plant.

---

Mae **Cyfreithiwr** yn rhywun sydd wedi'i hyfforddi mewn cyfraith teulu. Mae'n gallu rhoi cyngor a siarad ar ran pobl sy'n mynd drwy'r llysoedd teulu.

---

Mae **Cyfrinachol** yn golygu ei fod yn breifat iawn ac ni chaiff ei rannu ag unrhyw un arall oni bai ei bod yn bwysig iawn gwneud hynny.

---

**Cynghorydd Llys Teulu (CLLT)** yw enw person proffesiynol wedi'i hyfforddi sy'n gweithio i Cafcass Cymru ac yn helpu plant a theuluoedd mewn achosion cyfraith breifat.

---

Mae **Gweithiwr Cymdeithasol** yn cael ei hyfforddi i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn derbyn gofal priodol.

---

Mae **Hawliau'r Plentyn** yn rhestr o hawliau sydd gan yr holl blant a phobl ifanc, ym mhobman yn y byd, waeth pwy ydyn nhw, ble maent yn byw neu'r hyn maent yn credu ynddo.

---

**Llys Teulu** yw lle gwneir penderfyniadau pwysig am blant a'u teuluoedd. Mae'n wahanol iawn i lysoedd troseddol lle mae pobl yn mynd pan maent efallai wedi gwneud rhywbeth o'i le.

---

Mae **ynad** yn aelod hyfforddedig o'r gymuned sy'n gwirfoddoli i weithio yn y llys teulu. Mae'n cael ei gynghori gan Gynghorydd Cyfreithiol. Mae'n gwrando ar yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud, yn darllen adroddiadau, yn cymhwyso'r gyfraith ac yn penderfynu beth sydd orau i'r plentyn.

---

**Os nad ydych wedi cael hyd i'r gair oeddwch yn chwilio am, gofynnwch i'ch Cynghorwr Llys Teulu.**

